Cyd-Gyfarfod o Fwrdd Diogelu Plant ac Oedolion Gogledd Cymru

NEGESEUON ALLWEDDOL

O'r cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Mawrth 17 Medi 2019

- Cyflwyniad gyda chwestiynau a thrafodaethau i ddilyn gyda Rhiannon Edwards ar waith Bwrdd Rhanbarthol VAWDA SV. Nodwyd Blaenoriaethau a Rennir a meysydd o gydweithio. Trafodwyd hefyd ddatblygu hyfforddiant a meysydd ar gyfer gwaith newydd o ran dioddefwyr a chyflawnwyr troseddau.

- Rhoddwyd diweddariadau ar y camau gweithredu yn dilyn argymhellion o Adroddiad IOPC gan Heddlu Gogledd Cymru a chafwyd trafodaethau ynghylch themâu a rhannu dysg a ddaeth o'r adroddiadau APR/ CPR a DHR.

- Cynhaliwyd Adolygiad Partneriaeth o Ddiogelu gyda mapio gwahanol fyrddau a'u swyddogaethau er mwyn osgoi dyblygu gwaith. Mae'r Byrddau Diogelu rŵan yn aros am benderfyniad oddi wrth y Bwrdd Arweinyddiaeth Ranbarthol mewn perthynas â'r argymhellion a gawsant.

- Gweithdrefnau Diogelu Cenedlaethol – rhoddwyd diweddariad gan gyfeirio at y sefyllfa bresennol. Mae'r lansiad ar gyfer De Cymru wedi'i gynllunio ar gyfer 11 Tachwedd gyda digwyddiad Gogledd Cymru yn digwydd ar 14 Tachwedd – bydd y Dirprwy Weinidog yn bresennol. Mae datblygu'r deunyddiau hyfforddi bellach yn mynd rhagddo ac mae'r NWSB wedi bwydo i mewn i'r rhain.

- Nododd Cynllun Busnes NWSB gynnydd mewn rhai meysydd. Ychydig o gynnydd o ran y blaenoriaethau ecsbloetiaeth. Oedi yn rhannol oherwydd yr Adolygiad Partneriaeth ac ansicrwydd ynghylch lle bydd y flaenoriaeth yn eistedd.

- Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd – mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd gydag Adran Iechyd Llywodraeth Cymru ac mae Grwpiau Cyflenwi Ymarfer Lleol ar hyn o bryd yn cael cyflwyniadau oddi wrth uwch swyddog o'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ynghylch materion atgyfeirio.